

Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin

Brithwaith o gynefinoedd agored ar dir a oedd cynt wedi ei ddatblygu, neu gynefin 'tir llwyd' – mae'n cynnwys tir sydd neu a oedd ar un adeg o dan ddefnydd diwydiannol neu ddefnydd arall gan bobl ond sydd erbyn hyn yn segur, yn ddiffaith neu'n wag ar hyn o bryd (mewn rhai achosion gall fod yn cael ei ddefnyddio o hyd). Gallai safleoedd o'r fath gynnwys:

- hen lofeydd a thomenni baw,
- hen chwareli,
- safleoedd glo brig wedi'u hadfer,
- tanwydd-llwch wedi'i falurio (pfa – y llwch sy'n deillio o losgi glo wedi'i falurio mewn gorsafoedd ynni trydan glo)
- deunydd gwastraff carreg metel-lawn a grëwyd wrth doddi neu buro mwyn (tomenni metelog) o hen ffwrneisiau,
- safleoedd ffatri a ddymchwelwyd neu sy'n ddiffaith,
- morlynnoedd diwydiannol,
- hen dir rheilffordd,
- tir dociau diffaith,
- tir llygredig,
- hen domenni sbwriel ac ati.

Mae'r tir hwn i'w gael mewn mannau adeiledig a gwledig.

Yn aml bydd safleoedd tir llwyd yn segur am flynyddoedd lawer ac wrth i'r ardaloedd tawel hyn, nad oes neb yn tarfu arnynt, gael eu cytrefu gan blanhigion ac anifeiliaid gall fflora a ffawna amrywiol ddatblygu gydag dilyniant cymhleth o gynefinoedd yn ffurfio brithwaith neu glytwaith, o ddaear noeth i laswelltir, prysgwydd a choetir. Yn aml mae'r ardaloedd hyn yn darparu cynefinoedd amgen i lawer o rywogaethau sydd wedi dirywio wrth i'w cynefinoedd cynhenid yng nghefn gwlad yn fwy cyffredinol ddiplannu oherwydd ffermio dwys a threfoli. Yn aml nid yw gwerth bioamrywiaeth yr ardaloedd hyn yn cael ei lawn werthfawrogi a gallant fod yn bwysig i lawer o rywogaethau, yn enwedig blanhigion, adar, mamaliaid, amffibiaid ac ymlusgiaid ac infertebratau.

Gall olion o'r cynefinoedd gwreiddiol ddal i fodoli ar safleoedd ôl-ddiwydiannol ac, er eu bod wedi'u hynysu a'u bod yn ddarniog, gallant fod yn bwysig i fioamrywiaeth a gweithredu fel adnoddau genetig lleol tyngedfennol er mwyn ailgytrefu ardaloedd yr aflonyddwyd arnynt. Gallant weithredu fel coridorau bywyd gwyllt mewn ardaloedd sydd fel arall yn adeiledig neu drefol, yn ogystal â darparu cynefin gwerthfawr mewn sefyllfaoedd gwledig sydd fel arall yn brin o rywogaethau. Gall rhywogaethau gael eu cyflwyno mewn pridd sy'n cael ei arllwys yno a balast a gall rhywogaethau egsotig sy'n cael eu cysylltu gan amlaf â

Tir Llwyd, Gerddi a Mannau Agored Trefol

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership



Manteision naturiol cynefinoedd 'tir llwyd'

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Seilwaith Gwyrdd: mae i safleoedd tir llwyd sy'n gyfoethog mewn bioamrywiaeth y potensial i ddarparu seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel i bobl ac i fywyd gwyllt.
- Mae safleoedd tir llwyd yn gallu darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl gyrchu at y bywyd gwyllt sydd ar garreg y drws.
- Gall mannau gwyrdd trefol greu effaith glaearu ar yr amgylchedd lleol, glanhau'r aer a lleihau sŵn.
- Gall safleoedd tir llwyd helpu i storio dŵr llif.
- Gall mannau gwyrdd/safleoedd tir llwyd trefol helpu i storio carbon.

Pam mae cynefinoedd trefol/tir llwyd yn newid (o adroddiad State

chynefinoedd neu wledydd eraill dyfu yno; efallai y bydd y rhywogaethau hyn yn adlewyrchu masnachu rhyngwladol yr ardal yn y gorffennol a gellir ystyried bod iddynt werth diwylliannol, e.e. rhai rhywogaethau unflwydd ym Mhorth Tywyn a Phen-bre.

Mae pobl leol yn aml yn mwynhau'r ardaloedd hyn i wneud pethau fel mynd â'r ci am dro, ac mae iddynt yn aml werth amwynder anffurfiol. Mae gwaith ymchwil yn dangos fod natur yn chwarae rôl allweddol yn iechyd a llesiant pobl. Gall parciau trefol a gwarchodfeydd natur lleol, trwy alluogi unigolion i fwynhau byd natur, chwarae rôl arwyddocaol yn cynnal iechyd corfforol da, gwella wedi salwch, lleddfu straen a phroblemau iechyd meddwl, gwella rhyngweithio cymdeithasol a gwella cydlynedd cymunedol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae safleoedd tir llwyd wedi cael eu cydnabod yn gynyddol fel hafan bwysig i fywyd gwyllt. Maen nhw'n aml yn cynnal rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod ac erbyn hyn efallai fod dynodiadau arnynt er mwyn diogelu rhywogaethau o'r fath. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol yn cael eu dynodi ar sail eu rhinweddau nhw eu hunain wrth i gynefinoedd o bwys ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, safleoedd hen weithfeydd alcali, lagwnau lludw tanwydd maluriedig (pfa), tomenni gweithfeydd glo a phyllau graean.

Mae llawer o safleoedd tir llwyd yn Sir Gaerfyrddin yn fwy cyfoethog o ran y nifer o rywogaethau (boed nhw'n blanhigion, adar neu bryfed) nag ardaloedd eang o gefn gwlad sy'n cael ei ffermio'n ddwys. Yn wir, mae un hen lagwn setlo ym Mhwill, a oedd yn perthyn i hen Orsaf Bŵer Porth Tywyn, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd y cymysgedd anarferol o blanhigion ffen a choetir yno, tra mae safle arall cyfagos ('Pwll Llundw') yn bwysig o ran ei adar dŵr.

Mae rhan o Warchodfa Natur Leol Morfa Berwig yn y Bynie yn wlypdiroedd wedi'u llenwi, a ddynodwyd ar un adeg ar gyfer datblygu diwydiannol; erbyn hyn mae cynefinoedd tir llwyd ar y safle yn gartref i rywogaethau o bob math, ac mae'n arbennig o dda ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Mae'r mwyafrif o safleoedd ôl-ddiwydiannol yn Sir Gaerfyrddin yn ne-ddwyrain y sir, yn ardaloedd y maes glo a'r chwareli carreg galch yn arbennig, er bod gan y rhan fwyaf o drefi safleoedd diffaith neu safleoedd datblygu sy'n dod o fewn cwmpas y diffiniad cynefin hwn.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae **gerddi a rhandiroedd** wedi dod yn fwy a mwy pwysig i fywyd gwyllt, yn cynnwys llawer o rywogaethau sy'n brin yn fwy cyffredinol yng nghefn gwlad erbyn hyn. Gall gerddi a rhandiroedd fod yn

of Nature:

www.rspb.org.uk/stateofnature?)

- Darnio cynefinoedd – colli coridorau bywyd gwyllt.
- Colli manau gwyrdd.
- Garddio taclusach.
- Datblygu.
- Llygredd dŵr ac aer.
- Rhywogaethau estron.
- Newid hinsawdd.

Rhywogaethau cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr!):

Adar:

Linos
Bras melyn
Gwylan y penwaig
Drudwy
Cornchwiglen
Aderyn y to
Bronfraith
Llwyd y gwrych
Cudyll coch
Cwtiad torchog

Mamaliaid:

Ysgyfarnog
Draenog
Rhywogaethau o Ystumod.

Infertebratau:

Glas bach
Gwibiwr llwyd
Gweirlöyn cleisiog
Gweirlöyn y cloddiau
Brychan y wermod (gwyfyn)
Seffyr y ffyrch
Teigr y benfelen
Cardwenynen lwydfrown

Ymlusgiaid:

Neidr ddefaid
Llyffant dafadenog
Madfall
Neidr y gwair
Gwiber

Planhigion/isblanhigion

Glas yr yd
Penigan y porfeydd
Efrau
Brymlys
Cytwf

goridorau bywyd gwyllt pwysig hefyd. Yn ein trefi, caiff cyfran helaeth o'r cynefin sydd ar gael i fywyd gwyllt ei ddarparu gan erddi – nhw yw 'ysgyfaint gwyrdd' ein hamgylchedd trefol.

Mae gerddi'n chwarae rhan bwysig hefyd yn caniatáu i bobl gael cysylltiad agos â natur. Fodd bynnag, mae llawer o arferion garddio yn niweidiol o safbwynt bioamrywiaeth ac mae angen gwneud rhagor o waith i annog garddio sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Er enghraifft, mae defnyddio mawn yn cael effaith andwyol ar ein cynefinoedd mawn.

Wrth i'r amgylchedd ehangach golli rhywogaethau, mae gerddi'n cynnig hafan i amrywiaeth enfawr o adar a phryfed. Gall rhywogaethau eraill, fel draenogiaid ac amffibiaid, fod â chadarnleoedd o bwys erbyn hyn mewn gerddi cefn trefol.

Gall rhandiroedd hefyd orchuddio arwynebedd sylweddol o dir mewn trefi a gallant felly wneud cyfraniad pwysig i botensial bywyd gwyllt ardaloedd trefol. Mae'r amrywiaeth cynefinoedd a geir mewn rhandiroedd – tir wedi'i drin a braenar, ardaloedd o laswellt, lleiniau gwag wedi gordyfu, tomenni compost, siediau ac ati – yn eu gwneud yn bwysig i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Mae rhandiroedd yn cynnig manteision i'r gymuned gyfan ac yn cyfrannu at adfywio trefi a dinasoedd mewn modd cynaliadwy, gan ddarparu mannau gwyrdd mewn amgylcheddau trefol.

Term yw **mannau agored trefol** sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio parciau, mannau gwyrdd, ac ardaloedd agored eraill fel meysydd chwarae. Maen nhw'n gallu bod yn amgylcheddau sy'n cael eu rheoli'n helaeth neu'n ardaloedd cymharol naturiol. Maen nhw'n aml yn agored i'r cyhoedd fynd iddynt.

Mae'r ardaloedd hyn yn bwysig am eu bod nhw'n cynnig cyfleoedd hamdden da i bobl. Gallant fod yn nysoedd o natur, yn cynnal bioamrywiaeth ac yn darparu cynefin i rywogaethau naturiol mewn amgylcheddau nad oes modd iddynt fyw ynddynt fel arfer oherwydd datblygu trefol. O gael eu rheoli'n briodol, gall mannau agored trefol fod yn fannau lle gall cymunedau lleol fwynhau natur mewn lleoliad trefol.

Mae gan drefi Sir Gaerfyrddin enghreifftiau da o barciau a mannau agored. Mae Parc Howard yn Llanelli yn cyferbynnu â'r man agored mwy newydd sydd wedi'i greu ym Mharc Arfordirol y Mileniwm. Mae Parc y Betws yn Rhydaman a Pharc Penlan yn Llandeilo yn enghreifftiau da o erddi ffurfiol ynghyd â'r cynefinoedd naturiol. Mae aneddiadau bychain yn cynnwys darnau o dir agored yn

Clwbfrwynen y coed
Gludlys amryliw
Mwsogl plwm
Briger Gwener



cynnwys llecynnau chwaraeon. Mae gan aneddiadau bach ardaloedd o le hamdden agored yn cynnwys ardaloedd chwaraeon.

Un nod allweddol wrth gynnal bioamrywiaeth lle mae pobl yn byw yw eu galluogi i gael cysylltiad cadarnhaol/pleserus â bywyd gwyllt cyfarwydd, o adar y to yn y parc i ieir bach yr haf yn yr ardd a grifft brogaod yn y pwll lleol. Y gobaith yn y pen draw yw y bydd pobl yn teimlo bod natur yn rhan mor annatod o'u bywydau fel y byddant yn barod i ddefnyddio'u hamser, eu hegri a'u dylanwad i'w chadw.

Ble gallwch chi ymweld â'r cynefinoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin:

Safleoedd tir llwyd: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Merllyn y Pwll a Phwll Lludw Porth Tywyn; Gwarchodfeydd Natur Lleol Morfa Berwig, Bynea; Parc Coedwig Mynydd Mawr y Tymbl; Parc Hamdden Nant-y-Ci.

Parciau: Parc Howard Llanelli, Parc y Betws, Rhydaman; Parc Penlan Llandeilo, Parc Arfordirol y Mileniwm Llanelli.

Datganiad o weledigaeth ac amcanion

Ein gweledigaeth i'r cynefinoedd hyn yw cynnal a chyfoethogi gwerth a photensial cynefinoedd tir llwyd gerddi a mannau agored trefol eraill o safbwynt bywyd gwyllt a chynyddu ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd o safbwynt bioamrywiaeth a'r cyfleoedd y maent yn eu darparu i alluogi'r cyhoedd i ymwneud â chadwraeth ar lefel leol. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

- ▶ Sicrhau bod yr arwynebedd iawn o fannau agored o safon briodol yn y mannau iawn yn ardaloedd adeiledig Sir Gaerfyrddin i ddarparu ar gyfer bioamrywiaeth ac angen pobl i gael cysylltiad â hi.
- ▶ Er mwyn arolygu, cadw a mynd ati'n gadarnhaol i reoli cynefinoedd tir llwyd yn Sir Gaerfyrddin sy'n cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth.
 - ▶ Cynyddu'r nifer o nodweddion ystyriol o fywyd gwyllt mewn parciau/gerddi/ysgolion yn y sir.
 - ▶ Cynyddu'r nifer o randiroedd yn Sir Gaerfyrddin.
 - ▶ Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gynefinoedd.
 - ▶ Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd tir llwyd a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.
 - ▶ Er mwyn arolygu safleoedd tir llwyd allweddol a rhywogaethau blaenoriaeth cysylltiol.

Dolenni defnyddiol:

www.buglife.org.uk/conservation/currentprojects/Habitats+Action/Brownfields

www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/towns-and-gardens

www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/brownfield

www.biodiversitywales.org.uk/Urban-Brownfield-Ecosystem